**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) (Diwygio) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) (Diwygio) 2020.

Lesley Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

19 Mai 2020

**1. Disgrifiad**

1.1 Mae Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Deddf 2010) yn nodi darpariaethau sy'n ymwneud â draenio cynaliadwy (SuDS). Maent yn cynnwys sefydlu Corff Cymeradwyo SuDS (SAB) o fewn yr awdurdod lleol ochr yn ochr â dyletswydd ei awdurdod llifogydd lleol arweiniol. Bydd cymeradwyaeth gan SAB yn ofynnol cyn bod modd dechrau adeiladu systemau draenio ar safleoedd newydd a rhai sy'n cael eu hailddatblygu.

1.2 Mae Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018 ("Gorchymyn 2018") yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r gofyniad i gymeradwyo systemau draenio cynaliadwy, a cheisiadau i fabwysiadu systemau o'r fath o dan Atodlen 3 i Ddeddf 2010.

1.3 Mae Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) (Diwygio) 2020 ("Gorchymyn 2020") yn diwygio Erthygl 2 o Orchymyn 2018 i fewnosod diffiniad o 'caniatâd cynllunio' yn yr Erthygl, sy'n berthnasol i Orchymyn 2018 i gyd. Mae'r diwygiad yn nodi bod "caniatâd cynllunio" yn golygu caniatâd

cynllunio ar gais ac nid yw'n cynnwys hawliau neu ganiatadau datblygu cyffredinol a ganiateir a roddir yn unol â gorchmynion datblygu neu orchmynion datblygu lleol.

1.4 Mae cyfeiriadau at "caniatâd cynllunio" wedi'u cynnwys yn erthyglau 4, 5 a 6 o Orchymyn 2018. Mae Gorchymyn 2020 yn gwneud diwygiadau i Erthygl 4 o Orchymyn 2018 drwy roi'r un darpariaethau yn ei lle, gan ddileu'r troednodyn yn Erthygl 4(1) sy'n cynnwys diffiniad o "caniatâd cynllunio" at ddibenion yr Erthygl honno.

1.5 Mae Gorchymyn 2020 hefyd yn mewnosod isadran (3) newydd yn Erthygl 4 o Orchymyn 2018 sy'n darparu nad yw cymeradwyaeth yn ofynnol o dan baragraff 7(1) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010 ar gyfer datblygiadau brys a ganiateir o dan Ran 3(A), Rhan 12A a Rhan 37 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995. O dan yr isadran newydd, mae datblygiadau brys a ganiateir gan gyrff y GIG, awdurdodau lleol a'r Goron wedi'u hesemptio rhag yr angen i gael cymeradwyaeth gan SAB.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

2.1 Dim.

## 3. Y Cefndir Deddfwriaethol

3.1 Gwneir y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 32 a 48(2) o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, a pharagraff 7(4)(c) o Atodlen 3 iddi.

3.2 Yn unol â'r pwerau a restrir ym mharagraff 3.1 uchod, mae'r offeryn hwn yn dilyn gweithdrefn negyddol y Senedd.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae erthyglau 4, 5 a 6 o Orchymyn 2018 yn cyfeirio at eithriadau i'r gofyniad am gymeradwyaeth pan fo caniatâd cynllunio yn ofynnol a hefyd at yr eithriadau pan nad yw caniatâd cynllunio yn ofynnol.

4.2 Yn gryno, nod y polisi y tu ôl i Orchymyn 2018 oedd y byddai angen cymeradwyo pob datblygiad ag arwynebedd adeiladu o 100 milltir sgwâr neu fwy (gan gynnwys datblygiadau a ganiateir) o dan y ddeddfwriaeth draenio cynaliadwy ar ôl 7 Ionawr 2019 ymlaen.

4.3 Fodd bynnag, ystyrir bod datblygiadau a ganiateir, sydd wedi cael caniatâd cynllunio yn rhinwedd gorchmynion datblygu neu orchmynion datblygu lleol, wedi cael y caniatâd cynllunio hwnnw pan wnaed y gorchmynion hynny. Enghraifft fyddai datblygiadau a ganiateir o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ("GPDO").

4.4 Mae Erthygl 5 i Orchymyn 2018 yn darparu eithriad i'r gofyniad am gymeradwyaeth pan roddwyd caniatâd cynllunio neu ystyriwyd ei fod wedi'i roi cyn 7 Ionawr 2019. O ganlyniad, gellid dehongli mai effaith Erthygl 5 yw esemptio datblygiadau a ganiateir, megis y rheini o dan GPDO, sydd ag arwynebedd adeiladu

o 100 sgwâr metr neu fwy rhag gorfod cael cymeradwyaeth. Nid bwriad effaith y ddeddfwriaeth yw hyn ac nid yw'n cyd-fynd â bwriad polisi deddfwriaeth SuDS.

4.5 I egluro safbwynt ac effaith fwriadedig Gorchymyn 2018, mae Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) (Diwygio) 2020 yn diwygio Erthygl 2 o Orchymyn 2018 i ychwanegu diffiniad o "caniatâd cynllunio" sy'n berthnasol i Orchymyn 2018 i gyd. Mae'r diwygiad yn nodi bod "caniatâd cynllunio" yn golygu caniatâd cynllunio ar gais ac nid yw'n cynnwys hawliau neu ganiatadau datblygu cyffredinol a ganiateir a roddir yn unol â gorchmynion datblygu neu orchmynion datblygu lleol.

4.6 Mewn ymateb i bandemig Covid-19, mae Gorchymyn 2020 hefyd yn mewnosod isadran (3) newydd yn Erthygl 4 o Orchymyn 2018 sy'n darparu nad oes angen cymeradwyaeth SAB o dan baragraff 7(1) o Atodlen 3 i Ddeddf 2010 ar gyrff y GIG, awdurdodau lleol a'r Goron ar gyfer datblygiadau brys a ganiateir.

## 5. Ymgynghori

5.1 Mae'r Gorchymyn yn darparu diwygiad technegol i gywiro hepgoriad anfwriadol yng Ngorchymyn 2018 ac nid yw'n adlewyrchu newid ym mholisi gwreiddiol Llywodraeth Cymru. Er nad oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at randdeiliaid ar 14 Ionawr 2020 i'w hysbysu o'i bwriad i wneud y diwygiad drwy Orchymyn.

5.2 Ar ôl hynny, mewn ymateb i bandemig Covid-19, mae Gorchmynion wedi'u gwneud o dan y System gynllunio i roi statws datblygiad a ganiateir i ddatblygiadau brys gan awdurdodau lleol a'r GIG. (Roedd datblygiadau brys gan y Goron eisoes yn cael eu hystyried yn ddatblygiadau a ganiateir). Mae Gorchymyn 2020 yn trin datblygiadau o'r fath mewn ffordd debyg drwy eu hesemptio rhag gorfod cael cymeradwyaeth gan SAB. Gyda golwg ar yr angen am ymateb brys i'r pandemig, ni chynhaliwyd ymgynghoriad ar y mater hwn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Ni chyflawnwyd asesiad effaith rheoleiddiol gan nad yw'r Gorchymyn Diwygio yn adlewyrchu newid ym mholisi gwreiddiol Llywodraeth Cymru ers i'r Gorchymyn gwreiddiol gael ei wneud yn 2018. Cyflawnwyd asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer Gorchymyn 2018.

## 7. Asesu'r Gystadleuaeth

7.1 Amherthnasol.

## 8. Adolygu ar ôl gweithredu

8.1 Amherthnasol